Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

# Adroddiad Ymweliad

## Ysbyty Nevill Hall:

## Ward 3/3 Dyffryn

Chwefror 2023



# Cyflwyniad

Fel Cyngor Iechyd Cymuned, â dyletswydd statudol i fonitro gwasanaethau iechyd a chraffu arnynt, roeddem yn awyddus i ddeall mwy am brofiadau cleifion mewnol yn yr ysbytai yn ardal Aneurin Bevan.

Fel rhan o'i weithgareddau bob dydd mae'r CIC yn ymweld â lleoliadau'r GIG i siarad â phobl a'u gofalwyr a/neu aelodau o'u teulu am eu profiadau o ofal y GIG. Mae'r ymweliadau hyn fel arfer yn rhan o gyfres o weithgareddau'r CIC sydd wedi'u cynllunio i'n helpu i ddeall beth sy'n digwydd yn ardal Aneurin Bevan.

O bryd i'w gilydd, bydd y CIC yn cynnal ymweliadau dirybudd, ymatebol â lleoliadau'r GIG. Nid yw'r ymweliadau hyn yn rhan o raglen waith wedi'i cynllunio ymlaen llaw, ond cânt eu cynnal pan gaiff pryderon neu faterion eu codi gyda ni gan aelodau o'r cyhoedd. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymweliad dirybudd a gynhaliwyd gennym â Ward 3/3 Dyffryn yn Ysbyty Nevill Hall ddydd Mercher 1 Chwefror 2023, mewn ymateb i bryderon a godwyd fel rhan o ymholiad a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd.

Mae Ysbyty Nevill Hall yn Ysbyty Cyffredinol Lleol dyrchafedig yn y Fenni. Mae'n darparu ystod eang o wasanaethau gofal iechyd i'r boblogaeth leol, gan gynnwys gofal i gleifion mewnol a chyfleusterau i gleifion allanol. Ar yr ymweliad hwn aeth aelodau'r CIC i Ward 3/3 Dyffryn i sefydlu lefel boddhad cleifion ac ansawdd yr amgylchedd, ac i arsylwi sut mae staff yn rhyngweithio gyda chleifion.

Drwy gydol yr ymweliad, casglwyd gwybodaeth drwy arolygon cleifion, ffurflen amgylchedd ward, a ffurflen arsylwi amser bwyd.

Hoffai'r CIC ddiolch i aelodau gwirfoddol y CIC a gymerodd ran yn yr ymarfer hwn. Heb gymorth parhaus ein haelodau, ni fyddai'n bosibl i ni gwblhau ymarferon o'r fath.

# Ysbyty Nevill Hall, Ward 3/3 Dyffryn

## Gwybodaeth am y ward:

Mae Ward 3/3 Dyffryn yn ward Gofal yr Henoed a Chyffredinol â 32 o welyau. Ar adeg ein hymweliad roedd y ward yn cefnogi 16 o fenywod ac 16 o ddynion. Roedd un person yn aros i gael ei ryddhau.

Roedd dwy nyrs yn bresennol ar y ward, yn ogystal â phedwar Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd. Roedd dau Weithiwr Cymorth Gofal Iechyd banc hefyd. Oherwydd prinder staff nid oedd Prif Nyrs na Dirprwy Brif Nyrs yn bresennol.

## Yr hyn a ganfuom:

Yn ystod yr ymweliad, treuliodd yr aelodau amser yn arsylwi'r ward ac yn siarad â chleifion am eu profiadau. Rhoddodd dri chlaf adborth.

*1. Y ward:*

Ar ôl cyrraedd, canfu tîm y CIC fod yr ardal wedi'i harwyddo'n gywir ac yn ddigonol, a bod llawer iawn o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am staffio, ar gael wrth fynedfa'r ward.

Ymatebodd staff i'r gloch mynediad yn gyflym, a chyflwynodd aelodau CIC eu hunain cyn cael eu derbyn i'r ward.

Canfu ein tîm fod y lefelau sŵn ar y ward yn foddhaol, a bod y tymheredd yn gyfforddus. Roedd cyfleusterau hylendid dwylo ar gael.

Mae'r ward yn hygyrch i bobl â phroblemau symudedd, heb unrhyw beryglon posibl o faglu ar y llwybrau cerdded. Roedd yr allanfeydd tân yn glir a rhybuddion tân wedi'u harddangos yn glir ledled y

ward. Nododd yr aelodau fod y ward yn lân, a bod y toiledau'n lân ac wedi'u stocio'n dda.

Ni chaiff troliau meddyginiaeth eu defnyddio ar y ward hon bellach; caiff meddyginiaeth ei storio mewn rhaniad dan glo yn loceri'r cleifion sydd wrth ochr eu gwelau, ac felly nid yw'n hygyrch i aelodau'r cyhoedd. Roedd yr ystafell feddyginiaeth hefyd wedi'i chloi ac nid oedd modd i'r cyhoedd fynd iddi.

Mae dolen glywed ar Ward 3/3 Dyffryn, ond roedd y staff yn ansicr sut roedd yn gweithio.

Nododd yr aelodau fod dangosfwrdd da ar gyfer cleifion [1] ar gael. Roedd y staff yn gallu darparu gwybodaeth am y weithdrefn gwynion i aelodau pan ofynnwyd iddynt.

## *1.1 Staff:*

Wrth fynd i mewn i'r ward, canfu ein tîm nad oedd aelodau'r staff wedi ymgasglu, ond roeddent ar gael i ymwelwyr. Gwelwyd bod y staff yn gwisgo gwisg briodol, gyda bathodynnau enw wedi'u harddangos yn glir. Ar adeg yr ymweliad, nid oedd unrhyw aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg ar y ward.

Dywedodd staff wrth aelodau'r CIC nad oedd unrhyw wirfoddolwyr wedi bod ar y ward ers Rhagfyr 2022, ac eithrio un gwirfoddolwr Robin sy'n mynychu ar ddydd Llun yn achlysurol. Mynegwyd y byddai croeso mawr i wirfoddolwyr ar y ward hon.



[1] [1] Fel arfer, lleolir y dangosfwrdd cleifion ger desg clerc y ward. Mae'r dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth megis cwympiadau diweddar ar y ward, heintiau, nifer y bobl ar y ward, amseroedd ymweld, gwybodaeth i gleifion ac ymwelwyr a pholisïau ward ac ati.

## 1.2 Ardaloedd i gleifion:

Wrth i aelodau'r CIC siarad â phobl ar y ward, roeddent yn falch o weld bod yr ardal o amgylch y gwelyau yn lân ac yn daclus heb unrhyw beryglon posibl o faglu, yn y baeau â phedwar gwely ac mewn ystafelloedd unigol.

Dywedodd yr aelodau, er bod loceri wrth ymyl gwelyau'r bobl yn ymddangos yn flêr, roedd y ward ei hun yn lân.

Canfu ein haelodau fod byrddau adnabod yn cael eu defnyddio ger y gwelyau, a bod digon o le i ymwelwyr yn yr ardal o amgylch y gwelyau. Roedd storfa y gellir ei chloi ar gael ar gyfer eiddo personol y bobl. Roedd pob un o'r seinyddion/cordiau a arsylwyd gan ein haelodau yn hawdd eu cyrraedd ac yn gweithio.

Ni adawyd unrhyw feddyginiaeth ar hambyrddau'r bobl na byrddau wrth ochr y gwelyau yn ystod ymweliad y CIC.

Roedd cyflenwad dillad gwely’r ward yn foddhaol ac yn cael ei ailgyflenwi bob bore, ac eithrio ar benwythnosau a Gwyliau Banc, pan nododd staff fod problemau’n codi weithiau.



## 1.3 Adborth gan gleifion:

Cynhaliodd ein haelodau arolygon wyneb yn wyneb gyda thri pherson yn ystod eu hymweliad â'r ward.

Nid oedd dau o'r tri pherson y siaradwyd â nhw wedi derbyn taflen wybodaeth wrth gyrraedd y ward. Ni allai'r trydydd gofio a oedd wedi derbyn taflen ai peidio.


Roeddem yn falch o nodi na ddywedodd yr un o'r tri pherson y siaradwyd â nhw fod ganddynt unrhyw broblemau cyfathrebu ar y

ward; dywedodd y tri eu bod yn teimlo bod modd iddynt gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Roedd y tri pherson yn gweld oriau ymweld y ward yn foddhaol, gydag un person yn nodi ei fod yn 'fwy na hapus' gyda nhw.

### *1.3.1 Cyfathrebu:*

Siaradodd aelodau'r CIC â phobl am eu profiad â'r staff yn ystod eu hamser ar Ward 3/3 Dyffryn.




Mae'r CIC yn falch o adrodd bod y tri pherson wedi nodi bod y staff wedi cyflwyno eu hunain cyn darparu gofal a'u bod yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt hwy a'u perthnasau wrth wneud penderfyniadau am eu gofal. Nododd un person fod staff yn 'fodlon ailadrodd eu hunain' pan fo angen. Roedd y tri pherson y siaradwyd â nhw o'r farn bod y staff yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar.


Roedd dau berson yn teimlo bod staff yn gynnil wrth drafod eu gofal/triniaeth gyda nhw, gydag un person yn ateb 'ar y cyfan'.

Gwnaethant y sylw bod 'staff yn siarad ymysg ei gilydd' a bod y 'drws [bob amser] ar agor'.

Roedd dau berson o'r farn fod nifer y staff yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion yn ystod y dydd, a dywedodd un person ei fod yn teimlo bod mwy na digon o staff . Roedd un person o'r farn nad oedd y lefelau staffio yn ystod y dydd yn ddigonol i ddiwallu ei anghenion.

Canfu'r tri pherson fod lefel y staffio'n ddigonol i ddiwallu eu hanghenion yn ystod y nos, gydag un yn nodi y cânt eu 'goruchwylio drwy'r nos' a'u bod yn 'hapus iawn'.




Dywedodd y bobl wrthym fod eu seinyddion yn hygyrch ac yn gweithio, a bod staff yn ymateb iddynt mewn modd amserol pan gânt eu defnyddio.

### *1.3.2. Cyfforddusrwydd:*

Dywedodd y tri pherson y siaradwyd â nhw fod ganddyn nhw ddigon o obenyddion a blancedi. Er bod dau o'r tri pherson wedi dweud wrth aelodau eu bod yn gyfforddus, dywedodd un person nad oedd yn gyfforddus.

Dywedodd un person wrth aelodau’r CIC ei fod yn agor ei ffenestr gan ei fod yn ‘rhy gynnes’, a theimlai un arall hefyd ei fod ‘efallai yn rhy boeth’ yn ei ystafell.

Gofynnodd aelodau'r CIC y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r cyfleusterau ymolchi, cawodydd, a'u hanghenion o ran defnyddio'r toiled:




Mae’n bleser gennym adrodd bod pawb y siaradodd ein haelodau â nhw yn teimlo bod eu hanghenion toiled yn cael eu diwallu, eu bod yn gallu cyflawni hylendid geneuol/deintyddol, a lle bo’n bosibl eu bod yn gallu ymolchi/cael cawod a golchi eu gwallt mor aml ag y dymunant.

## 1.3.3 Cyfleusterau a Gweithgareddau:

Roedd y tri pherson y siaradodd aelodau'r CIC â nhw yn gallu gwylio teledu yn eu hystafell neu fae, er nad oedd teclyn rheoli o bell gan

bob set deledu. Nododd aelodau'r CIC broblemau posibl gyda phobl mewn baeau pedwar gwely yn cyrchu teledu. Roedd gan ddau o'r tri pherson fynediad at radio. Dywedodd dau berson wrth yr aelodau mai dim ond papurau newydd dyddiol oedd ar gael yn y siop, tra bod un person yn derbyn papurau newydd gan aelod o'r teulu. Roedd gan ddau berson fynediad at ddyfeisiau electronig fel ffonau yn eu hystafell/bae, tra bod gan un person ei ddyfeisiau ei hun.

Mae gan Ward 3/3 Dyffryn ystafell ddydd, er nad oes unrhyw weithgareddau cymunedol wedi'u trefnu oherwydd natur y ward. Roedd gan y tri pherson y siaradwyd â nhw fynediad i ystafell neu ardal breifat lle gallent wneud galwadau ffôn neu weld ymwelwyr.




### *1.4 Arsylwi ar Amser Prydau:*

Cynhaliodd y tîm ymweld arsylwad amser bwyd, gan nodi nad oes gan y ward system adnabod hambwrdd[2] ar waith ar hyn o bryd.

Roedd dwy nyrs yn arsylwi ac yn cynnal rowndiau meddyginiaeth tra roedd cinio'n cael ei weini i bobl.

Roedd dau droli bwyd yn cael eu defnyddio; cafodd un ei blygio i mewn am gyfnod byr, ni chafodd un ei blygio i mewn tra roedd prydau bwyd yn cael eu dosbarthu.

Ni welodd yr aelodau staff yn annog y defnydd o hylendid dwylo cyn i'r prydau gael eu gweini.

Arsylwodd ein tîm rai aelodau o staff yn cefnogi'r bobl i fwyta, ond nid oedd yn ymddangos bod digon o staff i gefnogi pawb yr oedd

[2]Defnyddir system adnabod hambwrdd i helpu staff i nodi pa bobl sydd angen cymorth ychwanegol wrth fwyta, neu sydd angen bwydydd sydd â gwead wedi'i addasu (e.e. bwydydd stwnsh neu biwrî).

angen cymorth arnynt. Er enghraifft, gwelodd aelodau'r CIC un aelod o staff mewn bae pedwar gwely yn ceisio cynorthwyo mwy nag un person.

Gwelwyd ei bod yn anodd i bobl oedrannus neu fregus ar y ward hon agor bwyd/byrbrydau wedi'u selio, a bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mewn rhai achosion roedd y staff yn clirio'r prydau cyn i bobl orffen bwyta.

Rhoddodd tri pherson yr adborth canlynol i ni ynghylch y bwyd ar y ward:

|  | **Da iawn** | **Da** | **Iawn** | **Gwael** | **Gwael iawn** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd y bwyd** | 1 | 1 | 1 | | |
| **Tymheredd y bwyd** | 1 | | 1 | 1 | |
| **Cyflwyniad y bwyd** | 1 | 1 | 1 | | |
| **Maint dognau** | 1 | 1 | 1 | | |
| **Y dewis o fwyd ar y fwydlen** | 1 | 1 | 1 | | |

Dywedodd un person wrthym ei fod yn cael ei annog i ddefnyddio cyfleusterau hylendid dwylo cyn prydau bwyd, a nododd un arall ei fod yn eu defnyddio'n annibynnol.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod bob amser yn cael y prydau yr oeddent yn eu harchebu. Nododd un person ei fod yn gallu cael byrbrydau yn ystod y dydd a'r nos. Dywedodd un arall wrthym fod ei berthnasau yn dod â byrbrydau iddo.

Roedd y bobl yn hapus bod eu jygiau dŵr yn cael eu newid yn ddigon aml. Roedd un person yn hapus gyda lefel y cymorth y mae'n ei gael i fwyta ac yfed, ond nid oedd un, gan ddweud 'weithiau ni chawn ni baned tan 9.30'.

# Adborth gan gleifion

Rhoddodd pobl adborth cadarnhaol am eu hamser ar Ward 3/3 Dyffryn:

'Allai i ddim ei feirniadu'

'Roedd yr ystafell yn ddigon tawel'

'Roedd y staff yn ddymunol iawn – y nyrsys a'r meddygon'

Pan ofynnwyd beth fyddai'n gwella eich cyfnod ar y ward, dywedodd un person:

'Paned o de yn gynnar yn y bore'

'Dim dewis o fara gwyn neu fara gwenith cyflawn'

# Meysydd i'w gwella a nodwyd ar Ward 3/3 Dyffryn

Er i ni glywed llawer o sylwadau cadarnhaol am amser pobl ar Ward 3/3 Dyffryn, fe wnaethom hefyd nodi rhai meysydd i'w gwella.

Nid oedd pobl ar y ward bob amser yn teimlo bod eu gofynion dietegol yn cael eu bodloni. Nid oedd cymorth bob amser ar gael i bobl yr oedd ei angen arnynt yn ystod amser bwyd, a gwelwyd bod fod pobl oedrannus neu fregus ar y ward yn ei chael yn anodd agor bwyd/byrbrydau wedi'u selio a'u bod angen cymorth ychwanegol arnynt.

Gwelwyd bod y staff yn arsylwi ar bobl ar ôl iddynt dderbyn eu pryd bwyd. Gwelodd yr aelodau y staff hefyd yn clirio bwyd pobl cyn iddynt orffen eu prydau bwyd. Yn ogystal, ni chafodd y troliïau bwyd eu plygio i mewn yn ystod amser bwyd i gadw bwyd yn gynnes.

Cododd yr aelodau bryderon nad oedd staff, yn enwedig Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd, bob amser yn dangos agwedd ofalgar, dosturiol a llawn cydymdeimlad tuag at bobl ar y ward.

Yn absenoldeb Prif Nyrs Ward neu Ddirprwy teimlwyd ei bod yn ymddangos bod diffyg arweinyddiaeth ar y ward. Nid oedd Dirprwy Brif Nyrs wedi'i dynodi, felly roedd yn ymddangos bod yr Uwch Nyrs, Gweinyddwr y Ward, a Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd profiadol yn rhedeg y ward hyd eithaf eu gallu.

# Argymhellion

1) Byddai'n dda gan y CIC pe gallai sylwadau cadarnhaol yr adroddiad hwn gael eu rhannu â'r staff ar Ward 3/3 Dyffryn.

2) Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ddarparu taflenni gwybodaeth i bobl wrth gyrraedd y ward.

3) Mae’r CIC yn gofyn i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod staff yn ymwybodol o’r Ddolen Clywed ac yn gallu cefnogi pobl i’w defnyddio pan fo angen.

4) Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â'r problemau y mae'r ward yn eu profi gyda chyflenwad dillad gwely dros benwythnosau a Gwyliau Banc.

5) Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan bobl fynediad at gyfleusterau megis teledu (a’r teclynnau rheoli o bell), papurau newydd ac ati.

6) Mae’r CIC yn gofyn i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cymorth ar gael i’r rhai sydd ei angen yn ystod amser bwyd, a bod bwydydd/byrbrydau wedi’u selio ar gael yn ôl yr angen.

7) Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gofynion dietegol pobl yn cael eu nodi ar gyfer prydau, ac ystyried a yw’n bosibl i bobl dderbyn diodydd poeth y tu allan i amser bwyd.

8) Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod troliau bwyd yn cael eu plygio i mewn drwy'r amser y mae prydau'n cael eu dosbarthu, fel bod bwyd yn aros yn gynnes drwy'r amser.

9) Mae'r CIC yn gofyn i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gan bobl ddigon o amser i orffen bwyta cyn i brydau gael eu clirio.

10) Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd nodi’r pryderon a godwyd ynghylch agwedd rhai o’r staff tuag at y bobl ar y wardiau, ac ystyried ffyrdd o gefnogi staff i ddangos agwedd ofalgar a thosturiol.

11) Gofynnir i’r Bwrdd Iechyd ystyried yr adborth yn yr adroddiad hwn ynglŷn â’r lefelau staffio ar y ward, a sicrhau bod digon o uwch-aelodau o staff yn bresennol i gefnogi a darparu arweinyddiaeth i’r tîm.

# Manylion cyswllt

Aneurin Bevan Community Health Council
Raglan House
William Brown Close
Llantarnam Business Park
Cwmbran
NP44 3AB

01633 838516

**Enquiries.AneurinBevanCHC@waleschc.org.uk**

**www.aneurinbevanchc.nhs.wales**

@Bevanchc

CIC Aneurin Bevan CHC

# Atodiad 1 – Canlyniadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn yr Arolwg

Nifer y bobl a gwblhaodd y Cwestiynau am Gydraddoldeb ac Amrywiaeth:

| Dewis Iaith | | |
|---|---|---|
| English | Arall | Heb ateb |
| 0 | 0 | 0 |

| Rhywedd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Menyw/Merch | Dyn/Bachgen | Anneuaidd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall | Heb ateb |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| A ydych yn ystyried eich bod yn berson traws? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Heb ateb |
| 0 | 0 | 0 | 0 |

| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anrhywiol | Deurywiol | Hoyw | Lesbiaidd | Heterorywiol/ Syth | Panrywiol | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall | Heb ateb |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| Mis a Blwyddyn geni | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ion 1931-2002** | **Chwe 1992** | **Maw 1946-90** | **Ebr 1945-88** | **Mai 1942-2003** | **Meh 1934-95** | **Gorff 1937-89** | **Awst 1931-77** |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Medi 1939-66** | **Hyd 1940-73** | **Tach 1933-91** | **Rhag 1928-95** | **1953-1995** | **Heb ateb** | | |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | |

**Ethnigrwydd**

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig:**

| Bangladeshaidd | Tsieineaidd | Indiaidd | Pacistanaidd | Arall |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

**Du neu Ddu Prydeinig:**

| Affricanaidd | Caribïaidd | Arall |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 |

**Gwyn:**

| Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig | Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig | Gwyddelig | Arall |
|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 |

**Grŵp Ethnig arall:**

| Arabaidd | Byddai'n well gen i beidio â dweud | Arall |
|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 |

| Crefydd neu gred | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwdhaeth | Cristnogaeth | Hindŵaeth | Islam | Iddewiaeth |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Siciaeth | Anffyddiaeth | Dim Crefydd | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Crefydd neu gred arall |
| 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb ateb | 0 | | | |

| A ydych yn ystyried bod gennych anabledd? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |
| 0 | 0 | 0 | 0 |

| A ydych yn gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog, neu'n rhoi unrhyw gymorth iddo, o ganlyniad i anabledd corfforol hirdymor, anhawster dysgu, salwch meddwl neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Byddai'n well gennyf beidio â dweud | Heb ateb |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 0 | 0 | 0 | 0 |

| **A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?** | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb ateb | Byddai'n well gennyf beidio â dweud |
| 0 | 0 | 0 | 0 |

# Atodiad 2

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhewch y tabl canlynol er mwyn nodi a fydd **polisi/gweithgarwch/adroddiad y CIC** yn cael effaith andwyol, gadarnhaol neu wahaniaethol ar y grwpiau canlynol, neu na fydd yn cael unrhyw effaith o gwbl

| **Effaith** | **Dim** | **Negyddol** | **Cadarnhaol** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Nodweddion Gwarchodedig** | | | | |
| Oedran | x | | | |
| Anabledd | x | | | |
| Rhyw | X | | | |
| Hil | X | | | |
| Crefydd/Credoau | X | | | |
| Cyfeiriadedd rhywiol | X | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ailbennu rhywedd | X | | | |
| Priodas a phartneriaeth sifil | X | | | |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | x | | | |
| **Nodweddion eraill i'w hystyried** | | | | |
| Y Gymraeg | | | x | Adroddiadau ac Arolygon wedi'u cyhoeddi ar ffurf ddwyieithog |
| Ieithoedd eraill | | x | | Gellir cyhoeddi Adroddiadau ac Arolygon yn yr iaith ofynnol ar gais |
| Hawliau dynol | x | | | |
| Lefel tlodi | x | | | |
| Unigolion â dibynyddion | x | | | |
| Poblogaeth wledig | x | | | |
| Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr | x | | | |
| Unigolion sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio technoleg ddigidol | x | | | |

## Asesiad Risg

| **A oes unrhyw risgiau'n codi wrth roi'r polisi hwn ar waith?**<br><br>Amherthnasol |
|---|
| **Pa fesurau sydd ar waith i reoli neu ddileu'r risgiau hyn?**<br><br>Amherthnasol |
| **Y Gymraeg**<br><br>Mae'r ddogfen hon/polisi/adroddiad hwn wedi'i hasesu/asesu yn unol â'n gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer safonau:<br><br>i) 37, 38<br>ii) 69, 70, 71<br><br>Wrth benderfynu ar yr effaith, gallwn ddangos y canlynol:<br><br>Mae pob dogfen gyhoeddus gan y CIC ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Mae'r CIC yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg.<br><br>**Canlyniad**<br><br>Effaith gadarnhaol –<br><br>Safonau 37, 38 – Caiff pob dogfen gyhoeddus ei llunio a'i chyhoeddi'n ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Safonau 69-71 – Rydym yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob dogfen gyhoeddus ac yn eu nodi fel eitemau cadarnhaol i'w cyfieithu i'r Gymraeg<br><br>Effaith Negyddol – Dim |

# Fformatau hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.